OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 No. 1581

Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

RHAN 2

Diwygio is-ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE

Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Cymru) 2019

3.—(1) Mae Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Cymru) 2019(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4(3) (diwygio Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007), yn lle is-baragraff (c), rhodder—

"(c) ym mharagraff (4)—

(i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle "unrhyw ddisgrifiad arall a restrir yn Erthygl 8.1(a) o Gyfarwyddeb 89/109" rhodder "yr hyn sy'n cyfateb i hynny mewn unrhyw iaith arall";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "yr Undeb Ewropeaidd" rhodder "y Deyrnas Unedig"."

(3) Hepgorer rheoliadau 5 a 6.

(4) Yn rheoliad 7 (diwygio Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Yn rheoliad 3(1), yn lle "i'r Undeb Ewropeaidd" rhodder "i Brydain Fawr"".

(b) Yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Yn rheoliad 8(3)(a)(i), yn lle "i'r Undeb Ewropeaidd" rhodder "i Brydain Fawr"".

(**1**) O.S. 2019/434 (Cy. 102), a ddiwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2020/44 (Cy. 5).